OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2016 No. 53

# Rheoliadau Datblygiadau o Arwyddocâd Cenedlaethol (Meini Prawf Penodedig a Chydsyniadau Eilaidd Rhagnodedig) (Cymru) 2016

## RHAN 2

## Datblygiadau o arwyddocâd cenedlaethol: meini prawf penodedig

**Gweithfeydd trin dŵr gwastraff**

**13.**—(1) Nid yw adeiladu gwaith trin dŵr gwastraff o fewn rheoliad 3(1)(j) ac eithrio pan fo capasiti disgwyliedig y gwaith trin (ar ôl ei adeiladu) yn fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.

(2) Nid yw adeiladu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff o fewn rheoliad 3(1)(j) ac eithrio pan—

(a) prif ddiben y seilwaith yw—

(i) trosglwyddo'r dŵr gwastraff ar gyfer ei drin, neu

(ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,

neu'r ddau, a

(b) disgwylir i'r seilwaith fod â'r gallu i storio mwy na 350,000 metr ciwbig o ddŵr gwastraff.

(3) Nid yw addasu gwaith trin dŵr gwastraff o fewn rheoliad 3(1)(j) ac eithrio pan effaith ddisgwyliedig yr addasiad yw cynnydd yng nghapasiti'r gwaith trin o fwy na chyfwerth poblogaeth o 500,000.

(4) Nid yw addasu seilwaith ar gyfer trosglwyddo neu storio dŵr gwastraff o fewn rheoliad 3(1)(j) ac eithrio pan—

(a) prif ddiben y seilwaith yw—

(i) trosglwyddo'r dŵr gwastraff ar gyfer ei drin, neu

(ii) storio dŵr gwastraff cyn ei drin,

neu'r ddau, a

(b) effaith ddisgwyliedig yr addasiad yw cynnydd yng nghapasiti'r seilwaith ar gyfer storio dŵr gwastraff o fwy na 350,000 metr ciwbig.

(5) Yn y rheoliad hwn—

mae "dŵr gwastraff" ("*waste water*") yn cynnwys dŵr gwastraff domestig, dŵr gwastraff diwydiannol a dŵr gwastraff trefol; ac

mae i'r termau "dŵr gwastraff domestig", "dŵr gwastraff diwydiannol", "cyfwerth poblogaeth" a "dŵr gwastraff trefol", yn eu trefn, yr ystyron a roddir i "domestic waste water",

"industrial waste water", "population equivalent" ac "urban waste water" gan reoliad 2(1) o Reoliadau Trin Dŵr Gwastraff Trefol (Cymru a Lloegr) 1994(**1**).

(**1**) O.S. 1994/2841. Gwnaed diwygiadau i reoliad 2(1) nad ydynt yn berthnasol i'r Rheoliadau hyn.